

Cynnig Cwriwcwlwm Ysgol Llanfairpwll

Dyddiad Creu: Medi 2023

Dyddiad Adolygu: Medi 2026




Ein taith tuag at ein Gweledigaeth

- Ystyried ein gweledigaeth bresenol.
- Ystyried ein arwyddair a'n nod.
- Ystyried ein dadansoddiad ni o'r cwricwlwm newydd.
- Ystyried barn teulu a chymuned yr ysgol.
- Blaenoraethu, personoli a pherchnogi'r pedwar diben fel ein nod ni.



Ystyried ein Gweledigaeth Bresenol



Mae ein hysgol yn ysgol
hapus!

Mae awyrgylch hapus a gweithgar yn yr ysgol lle mae pawb yn cael eu trin fel unigolion ac yn cael eu hadnabod a'u gwerthfawrogi gan bawb arall yn yr ysgol.

Mae ein hamcan fel athrawon yn un sydd yn creu sefyllfa addysgol lle y gall pob disgybl unigol deimlo ei fod yn aelod ohonni a'i fod yn cael ei werthfawrogi am ei gyfraniad fel unigolyn. Rydym yn ystyried y plentyn, nid yn unig fel disgybl ond hefyd fel aelod o gymdeithas yr ysgol ac fel aelod o'r gymdeithas y tu hwnt i furiau'r ysgol.

Ein nod yw eu bod wedi cael sylfaen addysgiadol gadarn i adeiladu arni yn y dyfodol a'r profiad angenrheidiol i fod yn aelodau hyderus a gwerthfawr o gymdeithas sydd heddiw mor gyfnewidiol ei naws.

Ein huchelgais, ar ôl iddynt adael yw y bydd y disgyblion yn datblygu i chwarae rôl lawn a chynhwysfawr fel dinasyddion gwybodus Cymru a'r byd, yn byw bywydau llawn fel aelodau hyderus a gwerthfawr o'n cymdeithas.


YSBRYDOLI

MYFYRIO

TRAWSNEWID

Ystyried ein arwyddair a'n nod

Lles y Disgybl




Hwyl Mewn Gwaith ar Daith ein Dysg!

Potensial y disgybl

Uchelgais academiaidd
ar gyfer y disgybl

Ystyried ein dehongliad ni o Cwricwlwm i Gymru



Ystyried barn teulu a chymuned yr ysgol.

It's important that pupils are inspired about the key and growth sectors in North Wales and the career opportunities available within these sectors.

It would be great to see the school engage with employers of various sectors across North Wales, inviting them in to school.

Y peth pwysicaf i fi fel rhiant yw sicrhau bod fy mhlentyn/plant yn parhau ar ddatblygu y sgiliau craidd hynny o ddadansoddi gwybodaeth a gwerthuso'n feirniadol yr hyn y mae nhw'n dod i ddysgu.

Y peth pwysicaf i fi am Ysgol Llanfairpwll yw fod yr athrawon yn coelio ym mhob un plentyn.

Mae'n bwysig i mi fod yr ysgol rydw i'n gweithio ynddi yn cefnogi staff i arbrofi gyda syniadau a thechnegau newydd o addysgu.

Rydw i'n ymfalchïo fy mod yn gweithio mewn ysgol sydd yn rhoi gymaint o bwyslais ar les disgyblion.

Fel llywodraethwraig rydw i'n andros o falch bod Ysgol Llanfairpwll yn creu a chynnal awyrgylch hapus a gweithgar i'r disgyblion a'r staff gan geisio darganfod ffyrdd cyson o wella ein hunain a'n darpariaeth.

Y peth pwysicaf i mi am Ysgol Llanfairpwll yw ein bod yn ysgol sydd yn cefnogi pawb.

Rydw i'n falch fod Ysgol Llanfairpwll yn ysgol lle mae pawb yn ffrindiau. Os oes unrhywun yn cael trafferth yna mae pawb yma i helpu!

We think the school has shown really fantastic commitment to some of these areas already. Holding the 'everyone is different' day was a particular highlight and we've subsequently heard some of the children in school making very supportive statements about diversity and what it means to be different.




Blaenoraethu, personoli a pherchnogi'r pedwar diben fel ein nod ni.

Hoffwn i Ysgol Llanfairpwll feithrin disgyblion i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodys sydd/ I would like Ysgol Llanfairpwll to nurture pupils to be ethical, informed citizens who:

yn canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn/ find, evaluate and use evidence in forming views

49 responses




Ysgol Llanfairpwll- Holi
igolion lach, Hyderus/ Ysgol
ll's Mission- Parents
aire- Healthy, confident

individuals

Wrth barhau i ddatblygu'r cwricwlwm newydd yn yr ysgol rydym yn ail edrych ar ein gwledigaeth. Teimlwn ei fod yn bwysig i ni gynnwys barn pawb sydd yn rhan o deulu'r ysgol. Felly, gofynnwn yn garedig i chi dreulio ychydig

yn meithrin eu lles meddyliol ac emosïynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathy / are building their mental and emotional well-being by developing confidence, resilience and empathy


33 responses



Holiaduron 4 Diben i bawb

yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol/ are knowledgeable about their culture, community, society and the world, now and in the past


49 responses



Hoffwn i Ysgol Llanfairpwll yn fy ngwneud i'n ddysgwyr:

Uchelgeisiol

144 responses



Gweledigaeth Ysgol Llanfairpwll

Sicrhau ein bod yn meithrin ac yn datblygu disgyblion mentrus, iach, creadigol, egwyddorol a gwybodus sydd yn gosod ac yn cyrraedd nodau heriol; disgyblion annibynnol sydd ag awch a chwilfrydedd tuag at ddysgu fydd yn parhau tu hwnt i'w hamser yn Ysgol Llanfairpwll; disgyblion fydd yn rhan weithredol, hapus, cyfranogol a gwerthfawr o'u cymuned.

Ein Cenhadaeth

Sicrhau ein bod yn creu a chynnal yr awyrgylch a'r ethos briodol i bob disgybl lwyddo. Sicrhau ein bod yn datblygu'r plentyn cyflawn gan feithrin, datblygu a gwarchod lles ac anghenion emosiynol pob disgybl; adnabod gwir bostensial pob disgybl; a chefnogi ac annog cynnydd academiaidd pob disgybl.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Gynllunio cwricwlwm eang fydd yn meithrin gwerthoedd Cymreig a gwreiddiau lleol ochr yn ochr a meithrin parch, goddefgarwch ac edmygaeth at amrywiaeth.
- Arbrofi'n gyson gyda dulliau newydd o ysbrydoli ac addysgu disgyblion gan fanteisio ar ymchwil gadarn.
- Wrando a chydweithio gyda theulu'r ysgol a thu hwnt.
- Drefn hunan-arfarnol gadarn fydd yn adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu yn barhaus.